# M.O.T. Cwricwlwm

> ‘Cwricwlwm ysgol yw popeth y mae dysgwr yn ei brofi er mwyn cyflawni’r pedwar diben. Nid dim ond yr **hyn yr ydym** yn ei addysgu, ond **sut** yr ydym yn ei addysgu ac yn hollbwysig, **pam** yr ydym yn ei addysgu.’ https://www.llyw.cymru/trosolwg-cwricwlwm-cymru

Mae’r deunyddiau hyn wedi’u cynhyrchu o waith un o’r is-grwpiau cyd-gynllunio i gefnogi gwireddu’r cwricwlwm. Mae’r cwestiynau wedi’u fframio mewn dwy fersiwn: i ymarferwyr unigol ystyried eu cynlluniau cwricwlwm eu hunain, ac i arweinwyr ysgol ystyried yr ysgol yn ei chyfanrwydd. Mae’r deunyddiau hefyd yn dod ag adnoddau at ei gilydd fel pwyntiau cyfeirio: er y byddwch yn gyfarwydd ag adnoddau’r cwricwlwm, efallai y byddai’n ddefnyddiol cael y rhain wedi’u casglu ochr yn ochr â’r cwestiynau myfyrio.

**1 Dylunio eich cwricwlwm**

Meddwl am sut rydych chi wedi bod yn gwireddu’r cwricwlwm newydd fel athro/arweinydd ysgol

| Ymarferwyr unigol | Arweinwyr ysgol |
| --- | --- |
| • Beth sy'n wahanol am fy ngweledigaeth am y cwricwlwm?<br>• Sut ydw i'n ymdrin â'r datganiadau Beth sy'n Bwysig?<br>• Sut ydw i wedi mynd i'r afael â'r elfennau gorfodol? | • Beth sy'n wahanol am ein gweledigaeth am y cwricwlwm?<br>• Sut ydyn ni'n ymdrin â'r datganiadau Beth sy'n Bwysig?<br>• Sut ydyn ni wedi mynd i'r afael â'r elfennau gorfodol? |

**1.1 Adnoddau defnyddiol ar gyfer dylunio eich cwricwlwm**

Mae’r adnoddau canlynol yn darparu pwyntiau cyfeirio ar gyfer y cwestiynau uchod:

| | |
| --- | --- |
| Datblygu gweledigaeth ar gyfer cynllunio cwricwlwm - Hwb (gov.wales) | Cynllunio eich cwricwlwm - Hwb (gov.wales) |
| Developing a vision for curriculum design - Hwb (gov.wales) | Designing your curriculum - Hwb (gov.wales) |

## 2 Beth sy'n wahanol am addysgu?

Meddwl beth mae hyn yn ei olygu i chi fel athro/athrawes/chi fel arweinydd ysgol

| Ymarferwyr unigol | Arweinwyr ysgol |
|---|---|
| • A yw'r hyn yr ydych yn ei addysgu yn wahanol?<br>• A yw'r ffordd yr ydych yn addysgu yn wahanol?<br>• A yw pam yr ydych yn ei addysgu yn cael ei ddeall a'i ystyried?<br>• Pa ddysgu proffesiynol sydd ei angen i gefnogi dealltwriaeth bellach? | • A yw'r hyn yr ydym yn ei addysgu yn wahanol?<br>• A yw'r ffordd yr ydym yn addysgu yn wahanol?<br>• A yw'r rheswm dros ei addysgu yn cael ei ddeall a'i ystyried?<br>• Pa ddysgu proffesiynol sydd ei angen i gefnogi dealltwriaeth bellach? |

## 2.1 Arweiniad defnyddiol

Mae'r adnodd canlynol yn darparu pwynt cyfeirio ar gyfer y cwestiynau uchod:

| | |
|---|---|
| Addysgeg – Hwb (gov.wales) | Pedagogy – Hwb (gov.wales) |

## 3 Datblygu cyd-ddealltwriaeth o gynnydd

Gan fyfyrio ar gynnydd:

| Ymarferwyr unigol | Arweinwyr ysgol |
|---|---|
| • A allwch chi fynegi eich dealltwriaeth o'r cynnydd yr ydych am i ddysgwyr ei wneud?<br>• A yw'r ddealltwriaeth hon yn cael ei rhannu â dysgwyr ac eraill sydd angen gwybod? | • A all yr holl arweinwyr a staff fynegi eu dealltwriaeth o'r cynnydd y maent am i ddysgwyr ei wneud?<br>• A yw'r ddealltwriaeth hon yn cael ei rhannu â chymuned ehangach yr ysgol gan gynnwys y gymuned ddysgu? |

### 3.1 Arweiniad defnyddiol ar gynnydd

Mae'r adnodd canlynol yn darparu pwynt cyfeirio ar gyfer y cwestiynau uchod:

| | |
|---|---|
| Cwricwlwm i Gymru: Y Cod Cynnydd \| LLYW.CYMRU | Curriculum for Wales: Progression Code \| GOV.WALES |

## 4 Asesu cynnydd

Myfyrio ar asesiad o gynnydd:

| Ymarferwyr unigol | Arweinwyr ysgol |
|---|---|
| • Sut ydw i'n asesu cynnydd?<br>• A yw'r ffordd yr wyf yn asesu yn helpu dysgwyr i nodi eu cryfderau ac yn fy helpu i ddeall sut maent yn dysgu?<br>• A yw'r ffordd yr wyf yn asesu yn cefnogi dysgu o ddydd i ddydd ac yn helpu i lywio dysgu yn y dyfodol?<br>• A yw'r ffordd yr wyf yn asesu yn fy nghefnogi i ddeall a myfyrio ar gynnydd unigol dros amser ac asesu cynnydd grŵp? | • Sut ydyn ni'n asesu cynnydd?<br>• Ym mha ffyrdd y mae asesu yn yr ysgol yn helpu dysgwyr i nodi eu cryfderau, ac yn helpu i lywio dysgu yn y dyfodol?<br>• Ym mha ffyrdd mae'n ein helpu i asesu cynnydd unigolion dros amser ac asesu cynnydd grŵp? |

### 4.1 Arweiniad defnyddiol ar asesu

Mae'r adnoddau hyn yn darparu pwyntiau cyfeirio ar gyfer y cwestiynau uchod

Supporting materials for curriculum, assessment and evaluating learner progress - Hwb (gov.wales)

Deunyddiau ategol ar gyfer y cwricwlwm, asesu a gwerthuso cynnydd dysgwyr - Hwb (gov.wales)

Cefnogi cynnydd dysgwyr canllawiau asesu - Hwb (gov.wales)

https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/assessment-arrangements/supporting-learner-progression-assessment-guidance/